1	Mae'r holl staff, fwy neu lai, yn gwybod pryd i ddefnyddio TGCh a phryd i beidio. Mae hyn yn arwain at gynllunio ysgol gyfan o safon, sy'n aml yn flaengar.	
2	Mae'r holl staff bron yn gwybod pryd i ddefnyddio TGCh a phryd i beidio ac mae hyn yn arwain at gynllunio effeithiol. Mae rhai o'r staff yn rhagori ar hyn ac yn gallu gweld cyfleoedd newydd i estyn dysgu ac addysgu.	
3	Mae llawer o'r staff yn ddigon hyderus i nodi'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio TGCh ac yn cynnwys hynny yn eu cynllunio yn rheolaidd.	
4	Mae rhai o'r staff yn cynllunio ar gyfer defnyddio TGCh ond ar y cyfan ceir cryn amrywiaeth yn eu hyder i wneud hynny.	
5	Ni cheir llawer o gynllunio ar gyfer defnyddio TGCh mewn dysgu ac addysgu oherwydd bod y rhan fwyaf o'r staff yn ansicr ynghylch adnabod y cyfleoedd addas.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3a Athrawon yn cynllunio, defnyddio a gwerthuso
Agwedd: 3a – 2 Cynllunio ar gyfer TGCh fel dull o ddatblygu cynhwysiad

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r holl staff, fwy neu lai, yn cymryd rhan weithgar wrth nodi sut gellir defnyddio TGCh i hwyluso ac ehangu mynediad i ddysgu i grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Gellir nodi sawl enghraifft dda o hyn ac fe'u rhennir yn yr ysgol.	
2	Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cynllunio'n briodol ar gyfer TGCh i gefnogi'r ystod gyflawn o ddisgyblion er mwyn iddynt gael mynediad i ddysgu ac ehangu hynny. Mae anghenion arbennig disgyblion yn cael eu diwallu, o leiaf yn rhannol, drwy ddefnyddio TGCh.	
3	Mae'r polisi cynhwysiad yn cydnabod yn glir rôl TGCh wrth hwyluso a chefnogi dysgu. Mae'r staff yn ymwybodol o'i photensial, ond nid ydynt bob amser yn gallu cyflawni amcanion yr ysgol oherwydd diffyg hyfforddiant neu ddiffyg adnoddau.	
4	Nid yw polisi cynhwysiad yr ysgol yn rhoi llawer o sylw i botensial TGCh er mwyn galluogi ac estyn dysgu grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Mae'r enghreifftiau lle mae TGCh yn helpu disgyblion i gael mynediad i ddysgu yn fylchog ac heb eu cynllunio.	
5	Ni cheir cysylltiadau amlwg ar lefel ysgol gyfan rhwng TGCh a chynhwysiad. Lle mae TGCh yn helpu cynhwysiad, ni nodir hyn ac ni rennir hynny â staff.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3a Athrawon yn cynllunio, defnyddio a gwerthuso
Agwedd: 3a – 3 Adeiladu ar ddysgu blaenorol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae dysgu disgyblion ym maes TGCh bob amser yn ystyried a/neu'n adeiladu ar brofiadau TGCh blaenorol a'r dystiolaeth asesu berthnasol.	
2	Mae'r athrawon fel mater o drefn yn adeiladu ar brofiadau TGCh blaenorol y disgyblion a'r dystiolaeth asesu berthnasol wrth gynllunio profiadau dysgu ar gyfer disgyblion.	
3	Mae cynllunio'r rhan fwyaf o'r athrawon yn adeiladu ar brofiadau disgyblion a'r dystiolaeth asesu berthnasol ond nid yw gwaith TGCh yn herio pob disgybl.	
4	Ceir peth ystyriaeth o ddysgu TGCh blaenorol wrth gynllunio defnyddio TGCh ond mae llawer o ddisgyblion yn gorfod ailadrodd dysgu neu weithgareddau TGCh yn ddiangen. Mae'r cynllunio weithiau wedi'i seilio ar dystiolaeth asesu berthnasol.	
5	Prin iawn yw'r ystyriaeth o ddysgu neu brofiadau TGCh blaenorol y disgyblion wrth gynllunio gwersi sy'n cynnwys TGCh. Nid yw'r cynllunio wedi'i seilio ar y dystiolaeth asesu berthnasol.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3a Athrawon yn cynllunio, defnyddio a gwerthuso
Agwedd: 3a – 4 I ba raddau y defnyddir TGCh wrth ddysgu ac addysgu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae TGCh yn elfen gyson a naturiol o ddysgu ac addysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion ar draws yr holl feysydd cwricwlaidd a'r grwpiau blwyddyn, fwy neu lai.	
2	Defnyddir TGCh i gefnogi dysgu ac addysgu'n helaeth ac yn aml.	
3	Defnyddir TGCh i gefnogi dysgu ac addysgu ar draws rhai meysydd cwricwlaidd, dosbarthiadau a chyfnodau allweddol.	
4	Ceir enghreifftiau o ddefnyddio TGCh mewn dysgu ac addysgu, ond mae'r ddarpariaeth yn dibynnu ar yr athrawon unigol a/neu'r maes cwricwlaidd.	
5	Ychydig iawn o TGCh sy'n cael ei defnyddio i gefnogi dysgu ac addysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3a Athrawon yn cynllunio, defnyddio a gwerthuso
Agwedd: 3a – 5 Safon wrth ddefnyddio TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r holl staff, fwy neu lai'n defnyddio TGCh i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a chreadigol sy'n estyn gallu'r disgyblion i ddysgu drostynt eu hunain yn yr ysgol a'r tu hwnt.	
2	Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio TGCh i wella profiadau dysgu ac addysgu ag ymagweddau na fyddai'n hawdd drwy ddulliau mwy traddodiadol.	
3	Mae llawer o'r staff yn defnyddio TGCh i ddenu ac annog disgyblion yn eu dysgu drwy ymagweddau ac adnoddau mwy amrywiol, gan arwain at brofiadau dysgu mwy gweithredol a rhyngweithiol.	
4	Defnyddir TGCh yn bennaf i ddisodli ymagweddau addysgu mwy traddodiadol, gan ganolbwyntio ar fanteision arwynebol megis cyflwyniad.	
5	Mae defnyddio TGCh yn fwy ar hap yn hytrach nag wedi'i gynllunio ac o ganlyniad prin yw'r elw o ran dysgu ac addysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3a Athrawon yn cynllunio, defnyddio a gwerthuso
Agwedd: 3a – 6 Gwerthuso beirniadol parhaus

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae diwylliant myfyrio'r ysgol yn sicrhau bod gwerthuso dysgu ac addysgu a dylanwad TGCh ar hynny yn rhan annatod o hyn. Gall staff nodi manteision sy'n deillio o ddefnyddio TGCh yn benodol ac maent yn rhannu hyn yn gyson gyda chydweithwyr yn yr ysgol a'r tu hwnt.	
2	Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gallu gwerthuso'n feirniadol y ffordd y mae TGCh yn effeithio ar ddysgu ac addysgu ac yn rhannu hyn gyda'u cydweithwyr.	
3	Gall llawer o'r staff werthuso effaith TGCh ar eu haddysgu ac ar ddysgu disgyblion yn feirniadol, ond heb wneud hynny'n rheolaidd. Mewn rhai meysydd cwricwlaidd, mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwerthuso beirniadol o'u harfer.	
4	Mae rhai staff yn gwerthuso effaith TGCh ar ddysgu ac addysgu'n feirniadol ond nid yw hyn yn nodweddiadol o'r arfer ar draws yr ysgol.	
5	Anaml iawn y bydd staff yn llunio barn feirniadol ar ddefnyddio TGCh mewn dysgu ac addysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3b Dysgu gyda TGCh
Agwedd: 3b – 1 Disgwyliadau disgyblion wrth ddefnyddio TGCh

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae disgwyliadau uchel gan yr holl ddisgyblion, fwy neu lai, ynghylch defnyddio TGCh ble bynnag a phryd bynnag y bo hynny'n briodol yn yr ysgol a'r tu hwnt. Maent yn gallu llunio cysylltiadau rhwng cyd-destunau dysgu gwahanol a chymhwyso eu gallu TGCh eu hunain a'i datblygu ymhellach.	
2	Mae disgwyliadau clir gan ddisgyblion ynghylch y cyfleoedd i ddefnyddio TGCh ac yn eu defnyddio'n llawn pan ddaw'r cyfle. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus i ddefnyddio eu gallu TGCh mewn cyd-destunau newydd ac yn gallu gwneud hynny.	
3	Mae gan ddisgyblion ddisgwyliadau cynyddol ynghylch defnyddio TGCh ac yn barod i gymhwyso TGCh pan ddaw'r cyfle. Mae llawer ohonynt yn gallu trosglwyddo eu gallu TGCh i sefyllfaoedd newydd.	
4	Prin yw'r meysydd cwricwlaidd neu adegau lle gall disgyblion ddefnyddio, neu ddisgwyl defnyddio TGCh. Pan fyddant yn gwneud hynny, maent yn aml yn ddihyder wrth drosglwyddo'u gallu TGCh i sefyllfaoedd newydd.	
5	Nid oes gan y disgyblion lawer o ddisgwyliadau ynghylch defnyddio TGCh fel rhan naturiol o'u dysgu yn yr ysgol ar wahân i'r gwersi TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3b Dysgu gyda TGCh
Agwedd: 3b – 2 Cyfleoedd lle gall disgyblion ddewis defnyddio TGCh

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae disgyblion yn disgwyl cael defnyddio TGCh ar draws y pynciau. Maent yn deall manteision ac anfanteision defnyddio cymwysiadau gwahanol ac yn mynegi'n glir sut mae hyn yn gwella'u dysgu.	
2	Yn y rhan fwyaf o'r meysydd cwricwlaidd/dosbarthiadau, mae disgyblion yn gallu nodi, dethol a defnyddio TGCh yn briodol.	
3	Mae disgyblion yn gallu penderfynu weithiau pryd i ddefnyddio TGCh ond mae hyn yn dibynnu ar athrawon unigol yn hytrach na pholisi.	
4	Mae disgyblion yn gallu penderfynu weithiau pryd i ddefnyddio TGCh mewn rhai pynciau.	
5	Nid yw disgyblion yn gallu penderfynu'n wybodus pryd i ddefnyddio TGCh fel y cyfrwng mwyaf effeithiol ar gyfer eu gwaith.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu March TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3b Dysgu gyda TGCh
Agwedd: 3b – 3 Sgiliau llythrennedd digidol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae gan yr holl ddisgyblion, fwy neu lai, lefelau llythrennedd digidol uchel a dealltwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn gallu defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau'r we yn briodol, yn yr ysgol a'r tu allan.	
2	Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ystod dda o sgiliau sy'n eu galluogi i gyrchu a defnyddio adnoddau'r we i gefnogi eu dysgu. Maent yn gwbl ymwybodol o faterion allweddol defnyddio gwybodaeth ac adnoddau oddi ar y we.	
3	Mae gan lawer o ddisgyblion rai sgiliau a dealltwriaeth sy'n eu galluogi i gyrchu a defnyddio gwybodaeth ac adnoddau dysgu oddi ar y we. Nid yw llawer yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol i gefnogi eu dysgu.	
4	Mae gan rai disgyblion rai sgiliau ac ymwybyddiaeth sy'n eu galluogi i gyrchu a defnyddio gwybodaeth ac adnoddau dysgu oddi ar y we i raddau.	
5	Prin yw'r disgyblion y mae ganddynt y sgiliau a'r ymwybyddiaeth sy'n eu galluogi i ddarganfod, cyrchu a defnyddio gwybodaeth ac adnoddau dysgu'n effeithiol oddi ar y we.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3b Dysgu gyda TGCh
Agwedd: 3b – 4 Ymateb disgyblion

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae dealltwriaeth dda gan ddisgyblion am sut y mae defnyddio TGCh yn gwella'u dysgu yn yr ysgol a'r tu allan. Gallant nodi enghreifftiau o sut mae TGCh wedi gwneud gwahaniaeth yn eu dysgu a'u cyflawniadau yn hawdd.	
2	Mae dealltwriaeth dda gan ddisgyblion am sut mae defnyddio TGCh yn gwella dysgu. Gallant esbonio, gydag enghreifftiau, sut maent yn defnyddio TGCh a sut mae'n effeithio ar eu cyflawniadau.	
3	Mae'r disgyblion yn dechrau ystyried sut mae TGCh yn effeithio ar eu dysgu. Gall rhai drafod elfennau o hyn wrth eu hysgogi, ac weithiau defnyddio enghreifftiau a ddaw o'u profiad hwy.	
4	Yn anaml iawn y bydd disgyblion yn ystyried neu'n trafod sut mae defnyddio TGCh yn cefnogi eu dysgu. Maent yn cael anhawster cynnig enghreifftiau sy'n cysylltu defnyddio TGCh â'r effaith ar ddysgu.	
5	Ar y cyfan nid yw disgyblion yn gallu nodi nac esbonio sut mae defnyddio TGCh yn cefnogi eu dysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3c Arweinyddiaeth wrth ddysgu ac addysgu
Agwedd: 3c – 1 Arweinyddiaeth wrth ddysgu ac addysgu gyda TGCh

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Ceir arweinyddiaeth strategol gadarn ar bob lefel sydd wrthi'n hybu a datblygu arferion blaengar ar gyfer defnyddio TGCh wrth ddysgu ac addysgu. Mae hyn yn sicrhau gweithredu cyson o safon.	
2	Ceir ymagwedd ysgol gyfan gytunedig ynghylch defnyddio TGCh wrth ddysgu ac addysgu. Mae uwch reolwyr yn arwain ar hyn yn strategol, mae'n cael ei hyrwyddo gan yr holl arweinwyr pwnc ac yn cael ei weithredu'n gyson.	
3	Mae llawer o'r arweinwyr pwnc yn hybu ac yn datblygu defnyddio TGCh yn effeithiol yn eu pynciau. Mae arweinyddiaeth strategol wedi dechrau, gyda pheth cydlynu ar draws yr ysgol ond mae'r gweithredu'n amrywiol.	
4	Mae rhai o'r arweinwyr pwnc yn ymwybodol o ddefnyddio TGCh wrth ddysgu ac addysgu ac o bosib yn ei hybu, ond ni cheir ymagwedd gydlynol ar draws yr ysgol.	
5	Ni cheir arweinyddiaeth glir sy'n hybu defnyddio TGCh yn effeithiol wrth ddysgu ac addysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3c Arweinyddiaeth wrth ddysgu ac addysgu
Agwedd: 3c – 2 Trosglwyddo a phontio

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r ysgol yn flaengar ac yn rhagweithiol wrth sicrhau bod dilyniant o ran profiadau rhwng blynyddoedd, cyfnodau, cyfnodau allweddol ac ysgolion a phartneriaid.	
2	Mae polisi gan yr ysgol sy'n cadarnhau ac yn sicrhau dilyniant o ran dysgu TGCh wrth drosglwyddo a phontio rhwng blynyddoedd, cyfnodau, cyfnodau allweddol ac ysgolion a phartneriaid.	
3	Ceir peth ymdrech i rannu gwybodaeth ynghylch profiadau TGCh wrth drosglwyddo a phontio rhwng blynyddoedd, cyfnodau, cyfnodau allweddol ac ysgolion, ond ni cheir llawer o ddefnydd ymarferol o'r wybodaeth hon.	
4	Ni cheir llawer o sylw i ddysgu TGCh disgyblion wrth drosglwyddo a phontio rhwng blynyddoedd, cyfnodau, cyfnodau allweddol ac ysgolion.	
5	Nid yw profiad disgyblion o TGCh yn codi o gwbl yn y trefniadau ar gyfer trosglwyddo a phontio rhwng blynyddoedd, cyfnodau, cyfnodau allweddol ac ysgolion.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGhC

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3c Arweinyddiaeth wrth ddysgu ac addysgu
Agwedd: 3c – 3 Datblygu arfer gyda TGCh

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Ceir diwylliant blaengaredd cryf sy'n annog staff i fentro'n ofalus i wthio'r ffiniau wrth ddefnyddio TGCh.	
2	Anogir blaengaredd, a hynny wedi'i gynllunio a'i werthuso'n dda. Adolygir y canlyniadau er mwyn eu cynnwys mewn datblygiadau cwricwlaidd yn y dyfodol.	
3	Mae peth gwaith blaengar yn digwydd ac mae hyn ar y cyfan wedi'i gynllunio'n dda. Rhennir y canlyniadau o fewn yr ysgol.	
4	Mae'n bosib bod rhai staff yn rhoi cynnig ar syniadau newydd ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu rhannu'n gyffredinol nac yn cael eu defnyddio mewn cynllunio cwricwlaidd ar gyfer y dyfodol.	
5	Nid yw staff yn cael eu hannog nac yn cael eu paratoi i ymchwilio i dechnolegau neu arferion newydd.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 3 Dysgu ac Addysgu
Llinyn: 3c Arweinyddiaeth wrth ddysgu ac addysgu
Agwedd: 3c – 4 Gwerthuso effaith TGCh ar safon y dysgu a'r addysgu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Ceir gwerthuso rheolaidd a systematig ar effaith TGCh ar addysgu ar bob lefel ac ar ddysgu yn yr ysgol a'r tu allan. Mae canlyniadau hynny'n arwain at welliannau pellach.	
2	Caiff effaith TGCh ar ddysgu ac addysgu ar bob lefel ei werthuso'n rheolaidd ac yn systematig. Mae canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio wrth nodi meysydd i'w datblygu.	
3	Mae gwerthuso'n digwydd fel rhan o strategaeth ysgol gyfan, ond nid yw'n cynnwys yr holl staff ar bob lefel. Gwelir effaith amlwg y gwerthuso ar wella arfer mewn rhai achosion ond nid yw'n systematig ar draws yr ysgol gyfan.	
4	Ceir peth gwerthuso ad hoc ond nid yw hyn yn systematig ac nid yw'n cyfrannu at ddarlun ysgol gyfan. Bu'r rhain ar y cyfan yn ddefnyddiol ond heb arwain at arfer gwell.	
5	Ni chafwyd fawr ddim ymdrech i werthuso effaith TGCh ar ddysgu ac addysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu March TGCh

Elfen: 4 Asesu
Llinyn: 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh
Agwedd: 4a – 1 Dibynadwyedd

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae asesu a chofnodi ar gyfer TGCh yn ddibynadwy ac yn gyson ac yn cynnwys gallu ar draws y cwricwlwm fel mater o drefn. Mae safoni yn digwydd yn yr ysgol a rhwng ysgolion.	
2	Mae gallu mewn TGCh yn cael ei asesu a'i gofnodi'n ddibynadwy ac yn gyson ac fe'i cefnogir gan asesu mewn meysydd cwricwlaidd eraill. Ceir peth safoni yn yr ysgol.	
3	Asesir a chofnodir gallu mewn TGCh ac mae'n cynnwys defnyddio TGCh mewn rhai pynciau eraill, ond ceir amrywiaeth yn yr arfer.	
4	Ceir peth asesu a chofnodi gallu mewn TGCh, ond mae'n anghyson, heb ei gydlynu ac yn anaml yn cynnwys cymhwyso TGCh mewn pynciau eraill. Ceir amrywiaeth mawr mewn arfer.	
5	Ni cheir systemau cydlynol ar gyfer asesu gallu TGCh disgyblion yn ddibynadwy. Anaml iawn y bydd asesu a monitro gwaith TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 4 Asesu
Llinyn: 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh
Agwedd: 4a – 2 Hunanasesu ac asesu cyfoedion

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Cwblheir hunanasesu ac asesu cyfoedion effeithiol a chywir yn systematig. Mae'n rhan hanfodol o ddysgu'r disgyblion yn yr ysgol a'r tu allan, ac asesu eu gallu TGCh.	
2	Mae disgyblion yn ymwneud ag asesu eu gwaith TGCh hwy ac eraill yn rheolaidd a hynny wedi'i seilio ar feini prawf a nodwyd ac a ddatblygwyd ganddynt. Mae hyn yn cyfrannu at eu dealltwriaeth o'r hyn yw safon dda ac yn eu helpu i wella.	
3	Mae disgyblion yn dechrau defnyddio'u meini prawf eu hunain ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion o ran gallu TGCh. Mae hyn weithiau'n eu helpu i ddeall sut gellir gwella eu gwaith.	
4	Mae disgyblion yn ymwneud â pheth hunanasesu o ran eu gallu TGCh, ond mae hyn yn canolbwyntio'n bennaf ac yn gyfyng iawn ar sgiliau a ddiffinnir gan yr athrawon. Mae'r effaith ar wella yn gyfyngedig.	
5	Anaml iawn y bydd disgyblion yn hunanasesu neu'n asesu cyfoedion o ran eu gallu TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 4 Asesu
Llinyn: 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh
Agwedd: 4a – 3 Deialog

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae staff yn hyderus ac yn gymwys i ddarparu adborth manwl o safon. Maent yn cael deialog effeithiol iawn gyda disgyblion yn rheolaidd ynghylch y ffordd y maent yn defnyddio TGCh, a hynny'n arwain at dargedau clir ar gyfer gwelliant.	
2	Mae staff yn gallu cynnal trafodaethau rheolaidd a gwybodus gyda disgyblion ynghylch y ffordd y maent yn defnyddio TGCh a sut i wella.	
3	Mae rhai staff yn gallu cynnal deialog â'r disgyblion sy'n eu helpu i wella wrth iddynt ddefnyddio TGCh, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.	
4	Gall rhai staff gael deialog â'r disgyblion i'w helpu i wella, ond mewn rhai agweddau'n unig ar eu gwaith TGCh. O ganlyniad mae'r effaith ar y ffordd y mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh yn gyfyngedig.	
5	Nid oes gan lawer o'r staff yr arbenigedd i'w galluogi i gynnal deialog â disgyblion ynghylch y ffordd y maent yn defnyddio TGCh, oni bai ar lefel arwynebol.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 4 Asesu
Llinyn: 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh
Agwedd: 4a – 4 Defnyddio TGCh i gefnogi asesu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r holl staff, fwy neu lai, yn defnyddio ystod o dechnolegau ac arferion dychmygus yn systematig i wella asesu a chofnodi cyflawniad yn sylweddol. Mae disgyblion yn gallu cyrchu storio ar-lein i'w galluogi i gofnodi a storio eu gwaith.	
2	Mae'r rhan fwyaf o staff a disgyblion fel mater o drefn yn defnyddio ystod o dechnolegau ac arferion i wella asesu a chofnodi cyflawniad. Mae'r ysgol yn ymwybodol o fanteision storio gwaith disgyblion ar-lein.	
3	Mae llawer o'r staff a'r disgyblion yn defnyddio TGCh i gefnogi asesu a chofnodi cyflawniad. Mae disgyblion yn datblygu ffyrdd o gofnodi'r cyflawniadau hyn.	
4	Mae rhai staff yn dechrau defnyddio TGCh i gefnogi asesu a chofnodi cyflawniad disgyblion.	
5	Ni ddefnyddir TGCh i gefnogi gweithdrefnau asesu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 4 Asesu
Llinyn: 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh
Agwedd: 4a – 5 Targedau TGCh ar gyfer gwella

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r ysgol yn pennu ac yn cyrraedd targedau TGCh ysgol gyfan ac unigolion heriol. Mae cynnydd unigolion yn cael ei olrhain yn systematig ac yn drwyadl.	
2	Mae'r ysgol yn pennu ac ar y cyfan yn cyrraedd targedau TGCh ysgol gyfan ac unigolion heriol. Mae cynnydd disgyblion yn cael ei olrhain yn rheolaidd.	
3	Pennir targedau ar gyfer gallu TGCh ar gyfer yr ysgol ac unigolion a cheir peth olrhain o gynnydd disgyblion unigol yn ôl y rhain.	
4	Pennir targedau TGCh ar gyfer yr ysgol ond nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ysgogi gwelliannau ar gyfer disgyblion unigol.	
5	Nid yw targedau cyrhaeddiad TGCh yn cael eu pennu ar gyfer yr ysgol nac unigolion.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5a Cynllunio
Agwedd: 5a – 1 Nodi sgiliau staff unigol a'u hanghenion

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae archwiliadau cynhwysfawr o sgiliau ac anghenion TGCh y staff yn rhan o'r broses rheoli perfformiad blynyddol. Maent yn cynnwys defnyddio TGCh yn effeithiol wrth ddysgu ac addysgu, cymwyseddau TGCh personol a hefyd technolegau ac arferion newydd ac sy'n datblygu.	
2	Ceir archwiliad rheolaidd a systematig o sgiliau ac anghenion staff o ran TGCh. Mae hyn yn cynnwys cymhwysedd TGCh a defnyddio TGCh yn effeithiol wrth ddysgu ac addysgu.	
3	Gwelir peth cynllunio ar gyfer nodi anghenion TGCh staff unigol. Mae hyn yn digwydd fel arfer pan fydd technolegau neu adnoddau newydd yn cyrraedd ac mae'n canolbwyntio'n fwy ar sgiliau TGCh na defnyddio TGCh i wella dysgu ac addysgu.	
4	Ni cheir llawer o ymdrech i archwilio sgiliau ac anghenion staff o ran TGCh. Mae'n dibynnu'n fwy ar unigolion yn nodi eu hanghenion hwy, fel arfer o ran datblygu sgiliau TGCh.	
5	Nid oes archwiliad cynlluniedig o ran sgiliau neu anghenion TGCh y staff.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5a Cynllunio
Agwedd: 5a – 2 Nodi anghenion datblygu TGCh ysgol gyfan

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae anghenion datblygu TGCh ysgol gyfan yn llwyr adlewyrchu cynlluniau strategol yr ysgol, yn darparu cyfle i flaengaredd ac yn ymateb i dechnolegau ac arferion sy'n datblygu.	
2	Anghenion datblygu wedi'u cysylltu â blaenoriaethau a chynllunio TGCh yr ysgol ac yn cynnwys ffocws ar ddefnyddio TGCh wrth ddysgu ac addysgu.	
3	Anghenion datblygu wedi'u cysylltu â rhai o flaenoriaethau strategol yr ysgol, ar gyfer TGCh yn benodol ac ar gyfer y dysgu a'r addysgu ehangach.	
4	Anghenion datblygu heb eu nodi mewn perthynas â blaenoriaethau a chynllunio TGCh yr ysgol.	
5	Ni cheir asesu cynlluniedig o anghenion datblygu TGCh yr ysgol gyfan.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5a Cynllunio
Agwedd: 5a – 3 Cynllunio i ddiwallu anghenion yr ysgol ac unigolion

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae cynlluniau'n dilyn proses datblygiad proffesiynol flynyddol sefydledig sy'n cydbwyso anghenion strategol ac anghenion unigolion ac sy'n pennu targedau sy'n ymwneud â rheoli perfformiad.	
2	Mae cynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol wedi'u seilio ar awdit systematig. Maent yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau ac yn ystyried anghenion unigolion ac ysgol gyfan.	
3	Ceir cymysgedd o weithgaredd datblygiad proffesiynol cynlluniedig sy'n gysylltiedig ag anghenion unigolion ac ysgol gyfan.	
4	Nid yw'r cynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol TGCh wedi'u cysylltu ag unrhyw ddadansoddiad o anghenion ac nid yw'n rhoi llawer o ystyriaeth i anghenion unigolion nac ysgol gyfan.	
5	Nid oes unrhyw gynllunio wedi'i gysylltu ag anghenion unigolion neu ysgol gyfan a nodwyd o ran TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5b Rhoi ar waith
Agwedd: 5b – 1 Ystod y cyfleoedd datblygu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Defnyddir ystod eang o ymagweddau blaengar ar gyfer datblygiad staff sy'n gyfuniad o ddarpariaeth wyneb yn wyneb, ar-lein a ffurfiau eraill.	
2	Darperir ystod eang o gyfleoedd datblygu yn yr ysgol a'r tu allan sy'n diwallu anghenion unigolion a dulliau'r rhan fwyaf o'r staff.	
3	Darperir ystod o gyfleoedd datblygu sy'n diwallu anghenion rhai aelodau o'r staff, ond nid pawb.	
4	Ceir rhywfaint o ymdrech i ehangu'r ystod o gyfleoedd datblygu, ond mae'r rhain ar y cyfan yn gyfyngedig o ran eu cwmpas a'u math a'u perthnasedd.	
5	Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau datblygu TGCh wedi'u seilio ar gyrsiau.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5b Rhoi ar waith
Agwedd: 5b – 2 Safon y datblygiad proffesiynol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol ar gyfer yr holl staff, fwy neu lai, yn flaengar, o safon ac wedi'u cysylltu â'r adnoddau ac arferion TGCh cyfredol ac ar gyfer y dyfodol. Rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion yr ysgol ac unigolion	
2	Mae'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff yn gyson amserol ac wedi'u cysylltu'n agos ag adnoddau TGCh presennol yr ysgol, arferion cyfredol ac anghenion yr ysgol ac unigolion.	
3	Mae'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol ar gyfer llawer o'r staff wedi'u cyflawni'n dda ac yn berthnasol ar lefel unigolion, yn amserol yn gyffredinol, wedi'u cysylltu ag adnoddau ac anghenion TGCh yr ysgol, ac yn effeithiol wrth ddatblygu arferion y staff gyda TGCh.	
4	Yn gyffredinol, mae datblygiad proffesiynol yn ad hoc ac nid yw wedi'i gysylltu â'r adnoddau TGCh sydd ar gael yn yr ysgol, yr arferion cyfredol neu anghenion yr ysgol neu unigolion. Ni cheir llawer o ddylanwad cadarnhaol ar agwedd y staff at TGCh.	
5		
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5b Rhoi ar waith
Agwedd: 5b – 3 Rhannu arfer effeithiol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r ysgol wedi datblygu ymagweddau blaengar at rannu arfer effeithiol yn yr ysgol a'r tu allan ac mae'n defnyddio'r dechnoleg i gyflawni hyn.	
2	Mae rhannu arfer effeithiol yn digwydd fel mater o drefn ar draws yr ysgol ac mae cyfnewid arfer ag ysgolion eraill yn rhan o'r cynllun.	
3	Mae datblygiad staff unigol yn cynnwys rhannu a derbyn arfer effeithiol yn ehangach yn yr ysgol.	
4	Anogir staff i rannu arfer effeithiol o ran TGCh yn ystod cyfarfodydd staff ond mae'n gweithio'n unig ar lefel unigolion.	
5	Bydd unrhyw rannu o ran arfer effeithiol rhwng unigolion ar y staff yn digwydd yn ad hoc.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5b Rhoi ar waith
Agwedd: 5b – 4 Hyfforddi, mentora a chefnogi unigolion

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae ymagweddau blaengar at gefnogi unigolion drwy hyfforddi a mentora yn rhan allweddol o ddatblygiad proffesiynol TGCh. Mae'r ysgol hefyd yn cefnogi staff mewn ysgolion eraill yn yr un ffordd naill ai mewn sefyllfaoedd wyneb yn wyneb neu drwy gydweithredu ar-lein.	
2	Mae cefnogaeth systematig drwy hyfforddi a mentora yn rhan o ddatblygiad proffesiynol cynlluniedig ar gyfer TGCh. Mae'r ysgol yn defnyddio darpariaeth allanol i estyn arbenigedd ac yn rhannu arfer effeithiol lle bo angen.	
3	Darperir mentora a hyfforddi i unigolion fel rhan o ddatblygiad proffesiynol TGCh cynlluniedig i'r rhan fwyaf o'r staff, yn ôl yr angen.	
4	Ceir peth mentora a hyfforddi ond nid yw hyn wedi'i gynllunio ac nid yw ar gael i'r holl staff.	
5	Mae staff yn gweithio fel unigolion, heb systemau ar gyfer mentora na hyfforddi i unigolion.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5c Adolygu
Agwedd: 5c – 1 Monitro a gwerthuso

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol TGCh yn cael eu gwerthuso'n systematig ac yn drwyadl er mwyn nodi'r effaith ar y sefydliad, arfer unigolion a chanlyniadau disgyblion.	
2	Mae system sefydledig gan yr ysgol i werthuso effaith datblygiad proffesiynol TGCh ar y sefydliad ac unigolion a hefyd ar ddysgu ac addysgu.	
3	Mae systemau gan yr ysgol i fonitro a gwerthuso safon datblygiad proffesiynol TGCh ac mae wedi dechrau cysylltu hyn â chanlyniadau o ran dysgu ac addysgu.	
4	Ceir ymdrechion cyfyngedig yn unig gan yr ysgol i fonitro a gwerthuso gweithgaredd datblygiad proffesiynol TGCh neu i gysylltu'r rhain ag arfer unigolion o ran dysgu ac addysgu.	
5	Ni cheir systemau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw ddatblygiad proffesiynol TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 5 Datblygiad Proffesiynol
Llinyn: 5c Adolygu
Agwedd: 5c – 2 Cysylltu â chynllunio datblygiad proffesiynol i'r dyfodol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol TGCh yn cael eu gwerthuso'n systematig ac yn drwyadl er mwyn nodi'r effaith ar y sefydliad, arfer unigolion a chanlyniadau disgyblion.	
2	Mae system sefydledig gan yr ysgol i werthuso effaith datblygiad proffesiynol TGCh ar y sefydliad ac unigolion a hefyd ar ddysgu ac addysgu.	
3	Mae systemau gan yr ysgol i fonitro a gwerthuso safon datblygiad proffesiynol TGCh ac mae wedi dechrau cysylltu hyn â chanlyniadau o ran dysgu ac addysgu.	
4	Ceir ymdrechion cyfyngedig yn unig gan yr ysgol i fonitro a gwerthuso gweithgaredd datblygiad proffesiynol TGCh neu i gysylltu'r rhain ag arfer unigolion o ran dysgu ac addysgu.	
5	Ni cheir systemau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw ddatblygiad proffesiynol TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6a Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth
Agwedd: 6a – 1 Dealltwriaeth

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r holl staff, fwy neu lai, yn deall y ffyrdd blaengar y mae'r ysgol yn ceisio eu defnyddio i estyn dysgu drwy TGCh fel rhan annatod o'i hymgyrch i godi safonau.	
2	Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymrwymedig i estyn cyfleoedd dysgu drwy ddefnyddio TGCh yn effeithiol ac yn ystyried hyn fel elfen hanfodol wrth godi safonau.	
3	Mae llawer o'r staff yn deall pwysigrwydd TGCh wrth estyn cyfleoedd dysgu a sut gellir cyflawni hynny.	
4	Mae rhai aelodau o'r staff yn ymwybodol o sut gallai TGCh gefnogi estyn cyfleoedd dysgu ond nid yw hyn eto'n rhan o ddealltwriaeth ysgol gyfan.	
5	Nid yw'r staff yn deall sut gallai TGCh gefnogi estyn cyfleoedd dysgu i ddisgyblion.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6a Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth
Agwedd: 6a – 2 Disgyblion a theuluoedd

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Anogir teuluoedd a disgyblion i fod yn rhagweithiol wrth fynegi eu hanghenion dysgu TGCh. Mae'r ysgol yn ymateb yn greadigol i'r ymagweddau hyn.	
2	Mae'r ysgol yn adolygu mynediad disgyblion a theuluoedd i TGCh yn rheolaidd. Cydnabyddir anghenion disgyblion a theuluoedd ac mae'r ysgol yn ymwybodol o'r cyfleoedd i ddarparu mynediad arall i TGCh.	
3	Ceir dealltwriaeth dda o fynediad disgyblion a theuluoedd i TGCh a'r modd y maent yn ei defnyddio, ac fe ystyrir hyn wrth gynllunio ar gyfer TGCh i estyn y dysgu. Mae'r ysgol yn deall materion cydraddoldeb ynghylch TGCh a sut mae'r rheiny'n ymwneud â chymuned yr ysgol.	
4	Cafwyd arolwg neu ymchwil arall i fynediad disgyblion a theuluoedd o ran TGCh a'i defnyddio y tu allan i'r ysgol, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio llawer.	
5	Nid yw'r ysgol yn gwybod dim am fynediad disgyblion a theuluoedd i TGCh na'u defnydd ohoni, gan gynnwys y rhyngrwyd, y tu allan i'r ysgol.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6a Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth
Agwedd: 6a – 3 Y gymuned

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r ysgol yn gweithio'n systematig, a thrwy ymgynghori â grwpiau eraill, ar unrhyw gynllun datblygu ar gyfer anghenion TGCh y gymuned. Mae'n ymchwilio mewn ffordd ragweithiol i'r modd y gall y gymuned gyfrannu at ddysgu'r disgyblion am TGCh a gyda TGCh.	
2	Mae'r ysgol yn bartner gweithgar wrth ymateb i anghenion TGCh y gymuned. Mae cwricwlwm yr ysgol yn ystyried cyfraniadau posib y gymuned i gefnogi dysgu'r disgyblion am TGCh a gyda TGCh.	
3	Mae'r ysgol yn deall manteision gweithio gyda'r gymuned leol ar faterion TGCh a, lle bo hynny'n briodol, yn cymryd camau i sefydlu partneriaethau. Cafwyd asesiad o anghenion y gymuned leol ac ystyriwyd sut gallai'r ysgol ymateb.	
4	Ceir peth dealltwriaeth gan arweinyddiaeth yr ysgol o anghenion TGCh y gymuned a'r cyfraniad posib at ddysgu. Maent hefyd yn deall sut y gallai mynediad y gymuned i adnoddau TGCh yr ysgol fod yn fodd o ennill hyder a chysylltiadau â'r gymuned.	
5	Nid yw'r ysgol yn gweld unrhyw rheswm na budd i asesu anghenion TGCh y gymuned nac o'r cyfraniad posib i ddysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6a Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth
Agwedd: 6a – 4 Sefydliadau partner

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae partneriaethau TGCh ategol wedi cael effaith sylweddol ar yr ysgol ac ar ddysgu'r disgyblion. Mae defnyddio TGCh yn y partneriaethau hyn yn cael ei adolygu'n feirniadol gan bawb sy'n rhan o'r cynllun.	
2	Ymchwiliwyd i rai partneriaethau TGCh ategol a chafwyd cynllunio. Nodwyd gweithgareddau gyda phartneriaethau ac mae'r rhoi ar waith ar y gweill.	
3	Mae'r ysgol yn ymrwymedig i estyn dysgu drwy bartneriaethau TGCh effeithiol â sefydliadau eraill. Mae partneriaethau ategol posib yn destun ymchwil ddiwyd.	
4	Mae'r ysgol yn ymwybodol o bosibilrwydd manteision wrth ymchwilio i bartneriaethau ategol â sefydliadau eraill ond ni chafwyd cynnydd o ran sefydlu'r rhain.	
5	Nid yw'r ysgol wedi asesu partneriaethau ategol posib â sefydliadau eraill o gwbl.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6b Cynllunio a gweithredu
Agwedd: 6b – 1 Arwain ar gyfer estyn y dysgu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Ceir ymagwedd ysgol gyfan at estyn y dysgu drwy TGCh sy'n cynnwys arweinwyr yr ysgol, yr athrawon ar bob lefel, y llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni/gofalwyr. Drwy hyn sicrheir cydlynu effeithiol ar draws yr ysgol. Mae estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu'n hanfodol i gynllunio ysgol ar gyfer TGCh.	
2	Ceir ymagwedd ysgol gyfan a gynlluniwyd yn dda i estyn cyfleoedd ar gyfer dysgu gyda TGCh gyda dirprwyo cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir. Mae'r llywodraethwyr yn rhan anhepgor o'r gweithgareddau hyn.	
3	Mae rhai arweinwyr wedi cymryd cyfrifoldeb personol dros ddatblygiadau yn y maes hwn, ac mae ymagwedd ysgol gyfan yn datblygu sy'n cynnwys trafodaethau â llywodraethwyr.	
4	Mae unigolion wedi cymryd cyfrifoldeb yn ôl y galw dros rai datblygiadau i estyn cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy TGCh, ond nid yw'r rhain wedi'u cynllunio na'u cydlynu.	
5	Nid oes neb yn gyfrifol am hybu estyn y dysgu drwy TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6b Cynllunio a gweithredu
Agwedd: 6b – 2 Disgyblion

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Defnyddir TGCh mewn modd blaengar i alluogi disgyblion i ddysgu ble bynnag a phryd bynnag y mynnant. Hwylusir profiadau cwricwlaidd ehangach drwy ddefnyddio TGCh yn estynedig. Mae disgwyliadau dysgu'r disgyblion gyda TGCh y tu allan i'r ysgol yn uchel a chydnabyddir dysgu o'r fath, a'i werthfawrogi a'i ddathlu.	
2	Mae trefniadau systematig a chyfartal yn bodoli i alluogi dysgu'r disgyblion gyda TGCh y tu allan i'r ysgol. Wrth gynllunio, mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn systematig yn cynnwys cyfle i'r disgyblion estyn eu dysgu gyda TGCh y tu allan i'r ysgol.	
3	Mae defnyddio TGCh i gefnogi ac estyn y dysgu y tu allan i'r ysgol wedi'i ddeall a'i werthfawrogi gan lawer o'r staff sy'n hybu defnydd o'r fath yn ddyfal. Mae integreiddio'r gweithgareddau hyn gyda dysgu'r disgyblion yn yr ysgol yn effeithiol ar y cyfan.	
4	Cynllunnir rhai cyfleoedd dysgu i ddisgyblion sy'n caniatáu defnyddio TGCh y tu allan i'r ysgol, ond nid yw'r cynllunio cwricwlaidd yn hyn o beth yn systematig. Mae rhai aelodau o'r staff yn ystyried gwaith y plant sy'n defnyddio TGCh y tu allan i'r ysgol.	
5	Ni cheir llawer o anogaeth i ddisgyblion ddefnyddio TGCh i gefnogi eu dysgu y tu allan i'r ysgol. Pan fyddant yn dangos eu dysgu gyda TGCh fel hyn, mae ymateb y staff yn ansicr.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6b Cynllunio a gweithredu
Agwedd: 6b – 3 Teuluoedd

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Rhoddir gwybodaeth berthnasol i deuluoedd drwy ddulliau amrywiol. Defnyddir TGCh yn flaengar i gynyddu a gwella cynnwys rhieni, cynnig dewis i rieni a'u galluogi i gysylltu â'r ysgol. Bernir bod cyfraniad y teulu i estyn cyfleoedd ar gyfer dysgu'n elfen hanfodol i lwyddo.	
2	Mae'r ysgol yn defnyddio TGCh i hybu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion sydd hefyd yn cynnwys eu teuluoedd yn y broses ddysgu. Mae rhieni'n gallu cyrchu peth data am yr ysgol a disgyblion o hynny o fewn terfynau. Mae gwybodaeth systematig ynghylch sut gall teuluoedd gefnogi dysgu'r disgyblion gartref ar gael.	
3	Mae gwybodaeth gyffredinol ynghylch y cwricwlwm ar gael yn electronig i deuluoedd a cheir awgrymiadau ynglŷn â sut i gefnogi dysgu'r disgyblion y tu allan i'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau TGCh i gynnwys rhieni wrth iddynt gysylltu â'r ysgol.	
4	Mae'r ysgol yn defnyddio ystod gyfyngedig o weithgareddau TGCh i gynnwys teuluoedd. Ceir mynediad ad hoc gan deuluoedd i adnoddau TGCh yn yr ysgol, ond mater i staff unigol yw hynny.	
5	Nid oes gan yr ysgol unrhyw ddiddordeb na dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio TGCh i gynnwys rhieni a theuluoedd yn nysgu'r disgyblion.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6b Cynllunio a gweithredu
Agwedd: 6b – 4 Y gymuned

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r ysgol yn rhoi gwerth ar TGCh fel adnodd allweddol i gysylltu a chynnwys y gymuned yn briodol. Mae'r gymuned yn rhan o ddatblygu ac addasu adnoddau dysgu TGCh.	
2	Mae adnoddau dysgu TGCh yr ysgol ar gael yn hwylus i'r gymuned eu defnyddio. Mae'r ysgol yn defnyddio TGCh i hyrwyddo a hybu gwybodaeth ac ymwneud â'r gymuned.	
3	Lle bo hynny'n bosib, mae'r ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod adnoddau dysgu TGCh ar gael, lle bo hynny'n briodol, ar gyfer y gymuned. Mae gweithgareddau'n bodoli i sicrhau bod dysgu'r disgyblion yn elwa o brofiadau TGCh yn y gymuned lle bo hynny wedi'i nodi.	
4	Mae'r ysgol yn cydnabod bod mynediad gan y gymuned i adnoddau TGCh, sydd wedi'i gynllunio ac yn briodol, yn ffordd o feithrin hyder ac ymwneud â'r gymuned, ond nid oes fawr ddim wedi digwydd i ganiatáu mynediad gan y gymuned i adnoddau TGCh yr ysgol.	
5	Ceir defnydd ad hoc a phriodol o adnoddau TGCh yr ysgol gan y gymuned.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6b Cynllunio a gweithredu
Agwedd: 6b – 5 Sefydliadau partner

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Ystyrir adnoddau'r ysgol, partneriaid a TGCh priodol eraill bob amser wrth gynllunio ar gyfer dysgu. Daw manteision sylweddol i'r holl bartneriaid drwy bartneriaethau ategol sy'n ymwneud â TGCh.	
2	Mae'r ysgol yn gweithio gyda sefydliadau partner ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â TGCh sy'n gwella profiadau dysgu'r disgyblion ac sy'n dod â manteision penodol i'r ddwy ochr.	
3	Mae'r ysgol yn cydnabod y gall TGCh fod yn offeryn ar gyfer partneriaethau effeithiol sy'n gwella profiadau TGCh disgyblion neu'r sefydliad partner. Mae gan yr ysgol ffyrdd penodol lle gall adnoddau partner fod yn ddefnyddiol i ddiwallu anghenion a/neu ddyheadau y naill a'r llall.	
4	Mae'r ysgol yn cydnabod bod ganddi adnoddau neu arbenigedd TGCh a allai fod yn werthfawr ac yn ddefnyddiol i ymwneud partneriaid â'r ysgol. Gall partneriaid weithiau ddefnyddio arbenigedd neu adnoddau TGCh y naill a'r llall at eu dibenion eu hunain.	
5	Ni cheir cynllunio ar gyfer partneriaethau TGCh ategol sy'n fuddiol i ddysgu a phrofiadau'r disgyblion, neu'r sefydliad partner.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 6 Estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu
Llinyn: 6b Cynllunio a gweithredu
Agwedd: 6b – 6 Gwerthuso

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o arferion gwerthuso, sy'n cynnwys defnyddio TGCh ei hun, ac sy'n ei galluogi i gysylltu estyn y cyfleoedd dysgu y tu allan i'r ysgol â chanlyniadau disgyblion. Defnyddir y gwerthusiadau hyn i fwydo cyflwyno'r cwricwlwm, dysgu ac addysgu, a datblygiadau'r dyfodol.	
2	Mae'r ysgol yn monitro a gwerthuso mewn ffordd systematig y dysgu sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol ac effaith hynny ar ystod o ganlyniadau disgyblion. Defnyddir peth adborth i helpu gyda chynllunio'r dyfodol.	
3	Ceir rhywfaint o fonitro a gwerthuso ar y ddarpariaeth sydd wedi estyn y cyfleoedd ar gyfer dysgu. Mae hyn yn ymchwilio'n fwy i faint sy'n gwneud hynny a'r safon yn hytrach na'r effaith ar ganlyniadau disgyblion.	
4	Ceir monitro a gwerthuso arwynebol ac yn ôl y galw sy'n canolbwyntio ar fynediad neu gymryd y cyfle yn hytrach na'r effaith ar ddysgu.	
5	Nid yw'r ysgol yn gwerthuso effaith unrhyw ddysgu sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 7 Adnoddau
Llinyn: 7a Darpariaeth
Agwedd: 7a – 1 Amgylcheddau Ffisegol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae cynlluniau a defnyddio lle mewn ffordd flaengar yn creu ardaloedd gwaith hyblyg sy'n galluogi ymagweddau eraill ar gyfer dysgu ac addysgu.	
2	Mae'r rhan fwyaf o'r mannau dysgu ac addysgu'n adlewyrchu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer TGCh ac yn diwallu'r rhan fwyaf o'r anghenion cwricwlaidd. Maent yn cefnogi amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu.	
3	Lle bynnag y bo'n bosib, crëwyd neu addaswyd mannau dysgu ac addysgu i adlewyrchu gweledigaeth, strategaeth ac ymagweddau dysgu ac addysgu'r ysgol o ran TGCh.	
4	Ni roddir llawer o ystyriaeth i'r ffordd y gellir addasu mannau dysgu ac addysgu i adlewyrchu lle TGCh yn y cwricwlwm, ar gyfer dysgu ac addysgu na diwallu anghenion dysgwyr gwahanol.	
5	Nid yw'r mannau dysgu ac addysgu wedi'u cynllunio na'u haddasu i adlewyrchu cyfraniad TGCh.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 7 Adnoddau
Llinyn: 7a Darpariaeth
Agwedd: 7a – 2 Digon o adnoddau

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae amrywiaeth eang o adnoddau TGCh o safon sy'n newid y diwylliant dysgu yn sylweddol yn yr ysgol.	
2	Mae gan yr ysgol amrywiaeth eang o adnoddau TGCh ac mae'r rhain yn ddigonol i effeithio'n sylweddol ar ddysgu, addysgu a threfniadaeth yr ysgol.	
3	Mae digon o adnoddau TGCh i gyfrannu at yr arfer cyfredol o ran dysgu, addysgu a threfniadaeth yr ysgol.	
4	Nid yw'r adnoddau TGCh yn ddigonol a chyfyng yw'r effaith ar ddysgu, addysgu ac anghenion trefniadaethol yr ysgol gyfan.	
5	Mae'r adnoddau TGCh yn brin o ran safon, amrywiaeth ac argaeledd ac nid ydynt yn diwallu anghenion yr ysgol.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TCh

Elfen: 7 Adnoddau
Llinyn 7a Darpariaeth
Agwedd: 7a – 3 Adnoddau dysgu digidol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau dysgu digidol yn ddychmygus ac sy'n newid y diwylliant dysgu yn yr ysgol yn sylweddol.	
2	Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau dysgu digidol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n effeithio'n sylweddol ar y dysgu a'r addysgu.	
3	Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau dysgu digidol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at arfer cyfredol wrth ddysgu ac addysgu.	
4	Nid yw'r adnoddau dysgu digidol yn cydweddu â gweledigaeth yr ysgol ar gyfer TGCh nac anghenion cwricwlaidd a dysgu amrywiol y disgyblion.	
5	Mae adnoddau dysgu digidol yr ysgol yn gyfyngedig ar gyfer cefnogi datblygiad gallu TGCh neu ddefnyddio TGCh wrth ddysgu ac addysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 7 Adnoddau
Llinyn: 7b Mynediad
Agwedd: 7b – 1 TGCh yn cefnogi gweithio'n hyblyg

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r mynediad i adnoddau cwricwlaidd a gweinyddol yn effeithlon ac mae'n bosib eu cyrchu o lawer o fannau yn yr ysgol a'r tu allan. Mae hyn, ynghyd â chysylltiad addas â'r Rhyngrwyd o ran lled y band a chyfleusterau yn galluogi datblygu arfer blaengar sy'n effeithio'n sylweddol ar y diwylliant dysgu yn yr ysgol.	
2	Mae'r mynediad i adnoddau cwricwlaidd a gweinyddol yn effeithlon ac mae'n bosib eu cyrchu mewn sawl man yn yr ysgol a'r tu allan. Mae hyn, ynghyd â chysylltiad addas â'r Rhyngrwyd o ran lled y band a chyfleusterau yn effeithio'n amlwg ar ddysgu ac addysgu.	
3 ict	Mae'r mynediad i adnoddau cwricwlaidd a gweinyddol yn ddibynadwy ac mae'n bosib eu cyrchu mewn sawl man yn yr ysgol, er bod mynediad o'r tu allan o bosib yn gyfyngedig. Ceir cysylltiad addas â'r Rhyngrwyd o ran lled y band a chyfleusterau. Mae cynllunio'r ysgol yn cydnabod yr angen am ddiweddaru hyn er mwyn diwallu anghenion yn y dyfodol.	
4	Ceir rhywfaint o fynediad i adnoddau rhwydweithiol cwricwlaidd ond cyfyng iawn yw'r mynediad i adnoddau gweinyddol. Mae cysylltiad yr ysgol â'r Rhyngrwyd yn anaddas o ran lled y band a/neu gyfleusterau.	
5	Mae'r mynediad i adnoddau rhwydweithiol cwricwlaidd a gweinyddol yn gyfyng iawn neu nid yw'n bodoli ac ni cheir cysylltiad addas â'r Rhyngrwyd.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu

Elfen: 7 Agweddau
Llinyn: 7b Mynediad
Agwedd: 7b – 2 Cefnogaeth dechnegol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Darperir cefnogaeth dechnegol ac fe'i rheolir yn effeithiol gan staff arbenigol er mwyn cefnogi athrawon a disgyblion a lleihau'r aflonyddu ar ddysgu a achosir gan broblemau technegol. Mae systemau'n bodoli i reoli a monitro perfformiad y gefnogaeth dechnegol.	
2	Ceir system cefnogi technegol effeithiol ac mae'n hawdd cael gafael ar y staff arbenigol sydd yn rhagweithiol ac yn adweithiol. Mae'r ysgol yn cymryd camau i leihau'r aflonyddu ar ddysgu ac addysgu a achosir gan broblemau technegol.	
3	Mae'r systemau cefnogi technegol yn ddigonol a chael gafael ar staff arbenigol yn weddol hwylus, ond mae oedi wrth ddatrys problemau yn gallu effeithio ar ddysgu ac addysgu am gyfnodau hir. Ni cheir llawer o gynnal a chadw rhagweithiol i leihau peryglon problemau technegol.	
4	Mae'r systemau cefnogi technegol yn annigonol ac mae'n anodd cael gafael ar staff arbenigol yn brydlon. Nid oes cynnal a chadw rhagweithiol i leihau peryglon problemau technegol.	
5	Nid oes cefnogaeth dechnegol ar gael yn yr ysgol.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 7 Adnoddau
Llinyn: 7c Rheoli
Agwedd: 7c – 1 Caffael

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Caffaelir adnoddau TGCh gan ddilyn canllawiau arfer gorau. Mae hyn yn rhan o ymagwedd systematig at ddarparu adnoddau a gwasanaethau cynaliadwy i gyflawni gweledigaeth yr ysgol, yn unol ag anghenion presennol yr ysgol ac yn y dyfodol ac i ddarparu gwerth am arian.	
2	Caffaelir adnoddau TGCh gan ddilyn canllawiau arfer gorau i ddiwallu anghenion presennol a dyfodol yr ysgol, fel y'u diffinnir yn strategaeth TGCh yr ysgol. Ystyrir cyfanswm cost bod yn berchen ar gyfarpar a gwasanaethau TGCh a gwerth am arian.	
3	Caffaelir adnoddau TGCh yn effeithlon i ddiwallu anghenion cwricwlwm, dysgu, addysgu, cynhwysiad a threfniadaethol presennol yr ysgol. Mae'r ysgol yn deall y materion sy'n ymwneud â chyfanswm cost bod yn berchen ar adnoddau TGCh a gwerth am arian. Mae caffael yn unol â'r cynllun strategol ar gyfer TGCh.	
4	Mae cynllunio cyfyngedig ar gyfer caffael adnoddau TGCh yn diwallu anghenion dysgu ac addysgu mewn rhai meysydd yn unig.	
5	Mae caffael adnoddau TGCh yn fympwyol, heb ei gynllunio ac yn ymateb i'r arian sydd ar gael yn unig.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 7 Adnoddau
Llinyn: 7c Rheoli
Agwedd: 7c – 2 Gwerthuso adnoddau TGCh

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae canlyniadau monitro a gwerthuso adnoddau TGCh yn systematig ac yn eang yn yr ysgol a'r tu allan yn sail i'r strategaeth gaffael barhaus.	
2	Mae monitro a gwerthuso adnoddau TGCh yn gynhwysfawr ac mae'n dylanwadu ar gaffael ar gyfer y dyfodol.	
3	Mae monitro a gwerthuso safon ac addasrwydd yr adnoddau yn digwydd ac weithiau'n dylanwadu ar gaffael yn y dyfodol.	
4	Mae monitro a gwerthuso yn ôl y galw'n digwydd, ond yn aml fel ymateb i faterion sy'n ymwneud â swm yr adnoddau a chael gafael arnynt.	
5	Ni cheir gwerthuso cynlluniedig ar ddigonolrwydd adnoddau TGCh yr ysgol a'r defnydd ohonynt.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8a Cynnydd disgyblion o ran gallu TGCh
Agwedd: 8a – 1 Cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae cynnydd disgyblion flwyddyn ar ôl blwyddyn ym mhob agwedd ar allu TGCh yn neilltuol.	
2	Mae cynnydd disgyblion flwyddyn ar ôl blwyddyn ym mhob agwedd ar allu TGCh yn dda.	
3	Mae cynnydd amlwg yng ngallu TGCh y disgyblion, ond ceir cynnydd anwastad mewn rhai agweddau.	
4	Ceir peth cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn TGCh, ond ymhlith nifer sylweddol, bach iawn yw'r cynnydd mewn rhai agweddau.	
5	Bach iawn yw'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn, os o gwbl, yng ngallu TGCh y disgyblion.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8a Cynnydd disgyblion o ran gallu TGCh
Agwedd: 8a – 2 Cynnydd grwpiau gwahanol

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r data ar gynnydd TGCh amrywiaeth eang o wahanol grwpiau o ddisgyblion yn dangos bod yr holl ddisgyblion, fwy neu lai, yn y grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais, yn gwneud cynnydd da neu neilltuol.	
2	Mae'r data ar gynnydd TGCh amrywiaeth o wahanol grwpiau o ddisgyblion yn dangos bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais yn gwneud cynnydd boddhaol neu dda.	
3	Mae data ar gael ar gynnydd TGCh gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae'r rhain yn dangos bod llawer o ddisgyblion sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais yn gwneud cynnydd boddhaol o leiaf.	
4	Mae data cyfyngedig ar gynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn dangos bod cynnydd y disgyblion yn y grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais fel arfer yn wael.	
5	Nid oes data ar gael ar gynnydd TGCh gan grwpiau gwahanol o ddisgyblion – yn arbennig y rheiny sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais – er enghraifft, heb fynediad i TGCh y tu allan i'r ysgol neu â chyrhaeddiad gwael cyn hynny.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8a Cynnydd disgyblion o ran gallu TGCh
Agwedd: 8a – 3 Cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r holl ddisgyblion, fwy neu lai, wedi cyrraedd lefelau hyder ac annibyniaeth uchel wrth gymhwyso a datblygu defnyddio TGCh.	
2	Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi cyrraedd lefelau hyder uchel wrth ddefnyddio a chymhwyso TGCh yn annibynnol a lle bo'n briodol.	
3	Mae llawer o'r disgyblion wedi dechrau datblygu eu hyder i ddefnyddio TGCh yn annibynnol er bod hyn yn amrywio.	
4	Gall rhai disgyblion ymateb yn dda mewn gwersi TGCh ond nid yw'r mwyafrif yn ddigon hyderus i ddatblygu eu dysgu'n annibynnol.	
5	Prin yw'r disgyblion sydd wedi datblygu eu gallu TGCh yn ddigonol i fedru cymhwyso'n annibynnol.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8b Cynnydd ehangach disgyblion
Agwedd: 8b – 1 Ehangder a chwmpas

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae TGCh yn effeithio'n amlwg ac yn aml ar ddysgu'r holl ddisgyblion, fwy neu lai, ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd cwricwlaidd ac mewn cyd-destunau eang.	
2	Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn estyn ac yn gwella llawer o'u dysgu drwy ystod eang o brofiadau TGCh ar draws sawl maes cwricwlaidd a chyd-destunau.	
3	Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio TGCh i estyn eu dysgu ar draws rhai meysydd cwricwlwm ac mewn cyd-destunau amrywiol. Mae hyn yn gwella eu cynnydd mewn rhai meysydd.	
4	Mae defnyddio TGCh mewn ffordd gul yn cyfyngu ar yr effaith ar gynnydd disgyblion ar draws meysydd cwricwlaidd.	
5	Oherwydd defnyddio TGCh mewn ffordd gyfyngedig ac anghyson, nid yw'n effeithio ar gynnydd disgyblion ar draws y meysydd cwricwlaidd.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8b Cynnydd ehangach disgyblion
Agwedd: 8b – 2 Agweddau ehangach dysgu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae defnyddio TGCh yn flaengar yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at gynnydd wrth ddatblygu sgiliau meddwl a dysgu'r rhan fwyaf o'r disgyblion.	
2	Mae TGCh yn cyfrannu'n systematig at ddatblygu sgiliau meddwl a dysgu'r rhan fwyaf o'r disgyblion.	
3 ict	Mae TGCh yn cyfrannu'n rheolaidd at gynnydd wrth ddatblygu sgiliau meddwl a dysgu llawer o ddisgyblion.	
4	Mae disgyblion weithiau'n datblygu sgiliau meddwl a dysgu wrth ddefnyddio TGCh ond mae'r cynnydd yn anghyson.	
5	Nid yw'r ffordd y mae disgyblion yn cymhwyso eu sgiliau TGCh presennol yn effeithio ar agweddau ehangach dysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8b Cynnydd ehangach disgyblion
Agwedd: 8b – 3 Creadigrwydd

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae cynnydd disgyblion yn neilltuol wrth ddatblygu eu galluoedd creadigol drwy ddefnyddio TGCh yn eang ac yn flaengar.	
2	Mae disgyblion yn estyn eu galluoedd creadigol yn rheolaidd drwy ddefnyddio TGCh ar draws ystod o bynciau.	
3	Mae disgyblion yn ehangu eu galluoedd creadigol drwy ddefnyddio TGCh mewn rhai pynciau.	
4	Mae disgyblion weithiau'n datblygu eu galluoedd creadigol drwy ddefnyddio TGCh ond mae cynnydd yn anghyson.	
5	Nid yw defnyddio TGCh yn effeithio ar ddatblygiad creadigrwydd.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8c Agweddau ac ymddygiad
Agwedd: 8c – 1 Agweddau at ddysgu

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae defnyddio TGCh wedi effeithio'n sylweddol ar agweddau disgyblion at ddysgu. I'r holl ddisgyblion, fwy neu lai, mae defnyddio TGCh wedi effeithio'n sylweddol ar eu hunan-barch, eu brwdfrydedd, eu hymwneud a'u hymagwedd at ddysgu yn yr ysgol a'r tu allan.	
2	Mae defnyddio TGCh wedi effeithio'n amlwg ar agweddau disgyblion at ddysgu, gan gynnwys eu hunan-barch. I'r rhan fwyaf o'r disgyblion, mae defnyddio TGCh wedi gwella eu gallu i ymchwilio, datrys problemau, mireinio'u gwaith, dysgu o'u camgymeriadau a myfyrio'n feirniadol. Maent yn rhoi llawer mwy o sylw i fanylion yn eu gwaith.	
3	Mae defnyddio TGCh wedi cael rhywfaint o effaith ar agweddau disgyblion at ddysgu. I lawer o'r disgyblion, mae defnyddio TGCh wedi gwella eu gallu i ymchwilio, datrys problemau, mireinio'u gwaith, dysgu o'r camgymeriadau a myfyrio'n feirniadol. Mae hyn wedi helpu'r disgyblion hyn i ddatblygu eu hunan-barch.	
4	Ychydig o effaith y mae defnyddio TGCh wedi'i gael ar agweddau disgyblion at ddysgu. Maent yn dechrau cymryd mwy o ddiddordeb mewn dysgu drwy TGCh ond nid yw TGCh yn effeithio ar eu hunan-barch na'u hagweddau at ymchwilio, datrys problemau na dysgu o'u camgymeriadau.	
5	Nid yw TGCh yn cael unrhyw effaith weladwy ar agweddau disgyblion at ddysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8c Agweddau ac ymddygiad
Agwedd: 8c – 2 Ymddygiad

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Wrth ddefnyddio TGCh, mae disgyblion yn ymwneud â'i gilydd ac yn cydweithredu'n effeithiol, yn cynnal canolbwyntio ac yn dangos dyfalbarhad. Maent yn dangos sensitifrwydd a pharch at waith, teimladau, gwerthoedd a chredoau disgyblion eraill.	
2	Wrth ddefnyddio TGCh, mae disgyblion yn ymwneud â'i gilydd neu'n cydweithredu ac yn gyffredinol yn cynnal y canolbwyntio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos sensitifrwydd a pharch at waith, teimladau, gwerthoedd a chredoau disgyblion eraill.	
3	Wrth ddefnyddio TGCh, mae disgyblion yn ymwneud â'i gilydd neu'n cydweithredu â'i gilydd yn effeithiol ar y cyfan, ond mae rhai yn colli diddordeb wrth ddod ar draws problemau. Maent yn dangos parch at waith, teimladau, gwerthoedd a chredoau eraill.	
4	Mae disgyblion yn dechrau ymwneud â'i gilydd neu gydweithredu'n synhwyrol ag eraill wrth ddefnyddio TGCh. Mae rhai'n dangos parch at waith, teimladau, gwerthoedd a chredoau disgyblion eraill.	
5	Nid yw disgyblion yn ymwneud nac yn cydweithredu â'i gilydd yn synhwyrol wrth ddefnyddio TGCh. Mae rhai yn tynnu sylw defnyddwyr eraill. Nid yw'r disgyblion yn dangos llawer o barch at waith, teimladau, gwerthoedd na chredoau disgyblion eraill.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGCh

Fframwaith Hunan-adolygu
Marc TGCh

Elfen: 8 Effaith ar ganlyniadau disgyblion
Llinyn: 8c Agweddau ac ymddygiad
Agwedd: 8c – 3 Cymhelliad

Lefel	Datganiad Sefyllfa	Tystiolaeth
1	Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n defnyddio TGCh yn dangos diddordeb, brwdfrydedd a blaengaredd; a hynny'n eu hysgogi i ymchwilio i botensial TGCh yn yr ysgol a'r tu allan. Maent yn cynnal eu canolbwyntio ac astudio annibynnol yn rheolaidd.	
2	Mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb, brwdfrydedd a chwilfrydedd pan fyddant hwy neu eraill yn defnyddio TGCh. Mae hyn yn eu hannog i ymchwilio i botensial TGCh yn yr ysgol a'r tu allan. Mae'n eu helpu i gynnal eu canolbwyntio a'u hastudio annibynnol.	
3	Mae disgyblion yn dangos diddordeb a chwilfrydedd pan fyddant hwy neu eraill yn defnyddio TGCh. Mae hyn yn eu helpu i ymchwilio a defnyddio potensial TGCh i'r eithaf. Yn gynyddol, gall llawer gynnal eu canolbwyntio a'u hastudio annibynnol am gyfnodau byr.	
4	Mae disgyblion yn dangos rhywfaint o ddiddordeb pan fyddant yn defnyddio TGCh, ond heb fawr o frwdfrydedd. I lawer o'r disgyblion, nid yw defnyddio TGCh i ddysgu ac addysgu yn effeithio llawer ar eu gallu i ganolbwyntio na'u cymhelliad.	
5	Nid yw disgyblion yn dangos diddordeb o gwbl wrth iddynt hwy neu eraill ddefnyddio TGCh. Nid yw TGCh yn effeithio o gwbl neu ychydig ar eu gallu i ganolbwyntio neu ymwneud â dysgu.	
Dd/B		

Sylwadau

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg Dinas a Sir Abertawe

Tîm Cwricwlwm TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YG Bryn Tawe,
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.
Ffôn: 01792 562669 / 07966 515364 e-bost: lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk